

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth sydyn Mr John Meirion Roberts (Llansannan) ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Estynnwn ein cydymdeimlad â Dorothy a'r plant – Selwyn, Geraint, Eirlys a Llinos, a hefyd ei frawd a'i chwaer – Elwyn Roberts (Llansannan) ac Eirwen Foulkes (Llanfair) a gweddiill y teulu, a chyflwynwn hwy oll i ofal a thangnefedd yr Arglwydd. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â theulu Ysgubor Bryn Bugad (Tanyfron) yn eu profedigaeth hwythau. Gweddiwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn y brofedigaeth hon eto ac y byddant yn profi yr Arglwydd Iesu yn gwmni ac yn gysur iddynt.
- Anfonwn ein cofion at Glenys Jones (Llanefydd) a dreuliodd rai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd cyn y Nadolig, ond sydd bellach yn cael gofal yn Ysbyty Rhuthun, a hefyd Hywel Wyn Davies (Cefn Berain) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Cofiwn hefyd am Irwyn Jones (Tanyfron), yntau wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau yn ddiweddar. Diolchwn i Dduw am y tri ohonynt, a gweddiwn eu bod yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Maldwyn Jones (Plas Eleri); Mr Selwyn Davies, Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); Mrs Eirian Davies (Canterbury House) a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House). Gweddiwn ar i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni y flwyddyn hon eto.

I ddod

- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** – Bydd Radio Cymru yn recordio Talwrn y Beirdd nos Fawrth, Ionawr 13eg yn y Ganolfan am 7.30.
- **CYMDEITHAS CEFN MEIRIADOG** – Sgwrs a Chân yng nghwmni Robot Arwyn nos Fercher, Ionawr 14eg am 7.00 yn festri Cefn Meiriadog. Bydd yn noson agored, felly croeso cynnes i bawb. Mynediad £3. Paned a chacen i ddilyn.
- **DIWRNOD DYNION** yng Ngholeg y Bala dydd Sadwrn, Ionawr 17eg.
- **ASTUDIAETH FEIBLAIDD I'R FRO** yn Llanefydd nos Iau, Ionawr 22ain am 7.30.
- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 30ain–Chwefror 1af.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 6ed–8fed.
- **LLANW** – Mae'r amser wedi dod i archebu lle yng ngŵyl Gristnogol Llanw – cyfle i'r teulu cyfan ddathlu'r atgyfodiad – yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed–10fed. Y siaradwr yn oedfaon y bore fydd Dr Rhodri Glyn, a bydd siaradwyr gwahanol yn arwain oedfaon yr hwyr. Mae taflenni gwybodaeth ar gael yn yr Ofalaeth – os nad oes rhai ar gael yn eich eglwys chi, gofynnwch i Mair am rai, os gwelwch yn dda. Gallwch hefyd gael yr wybodaeth a ffurflen archebu ar y wefan: www.llanw.org.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Ionawr 2015

Darlleniad y Dydd

Mathew 2:13-15

(BCND tud.2 / BCN: tud.2)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i'r flwyddyn newydd! Gobeithio i chi gael Nadolig bendithiol ac i chi brofi Duw yn agos ym mhob profiad. Cawsom ychydig o eira a rhew, haul a nosweithiau serenog, a braf iawn oedd cael cwmni'n gilydd a chwmni'r Arglwydd yn ein hoedfaon dros yr Ŵyl. Dyma gyfle eto heddiw i godi diolch iddo am ei gynhaliaeth rhyfeddol a'i ofal sydd fel gofal bugail yn codi ei ŵyn i'w freichiau i'w cario dros lefydd geirwon a'u harwain yn ddiogel i'w gorlan. (Eseia 40: 11) Dymunwn flwyddyn newydd dda i chi a'ch teulu, gan ymddiried pob cam o'r daith eleni i ofal ein Tad nefol.

Dyma sy'n rhyfeddol am yr hanes sydd yn y darlleniad heddiw – y ffordd y mae Duw, fel Tad nefol, yn diogelu Iesu'r plentyn bach a Mair a Joseff bob cam o'u taith. Arweiniodd nhw i'r Aifft rhag llid Herod a'i filwyr nes y byddai'r amser yn iawn iddynt fynd yn ôl i Nasareth a chartrefu yno. Cael ei "alw o'r Aifft" a gafodd Iesu felly fel y cafodd ei gyn-dadau dan arweiniad Moses o gaethwasanaeth i Pharo ganrifoedd ynghynt. Wrth i filiynau orfod ffoi eto heddiw o'u cartrefi oherwydd gormes 'Herod' a 'Pharo' ein hoes ni, gweddiwn y bydd Duw yn gweithredu i'w gwaredu ac y bydd amser eu rhyddid a'u hadferiad yn dod yn fuan.

'Sgwn i os oes ganddoch chi arferion agor presantau 'Dolig? Yn ein tŷ ni, mae'n rheol na fydd yr un yn cael ei agor cyn diwrnod Dolig! Er y bydd dipyn o ysgwyd a byseddu'n digwydd cyn hynny! Mae'n arferiad gennym wedyn ar ddydd Nadolig i agor hosan Sion Corn pan liciwn ni a chadw'r presantau eraill tan amser paned ar ôl yr oedfa. Agor dipyn bach hefyd ar ôl y cwrs cyntaf a chael hoe bach cyn mynd at y twrci! Agor presantau'r teulu ar ôl cinio hefo paned arall. Rhwng pawb, ac yn enwedig rhwng Elin, Megan a Cadi, mae 'na nifer fawr o anrhegion i'w hagar a digon o bapur lapio i chwarae ogof! Diolch am lawenydd rhoi a derbyn.

Mae gan Dduw hefyd ei drefn wrth agor ei roddion i ni. Y gair a ddefnyddiwn am hyn ydi 'Rhagluniaeth'. Duw hael sydd gennym sy'n tywallt ei fendithion arnom o ddydd i ddydd yng Nghrist, ond daw pob un yn unol â threfn ddirgel Duw. Mae troeon Rhagluniaeth yn dywyll weithiau, a'u golau fel petai wedi ei guddio oddi wrthym. Ond mae'r Beibl yn ein dysgu fod Rhagluniaeth fawr y nef o blaid y rhai sydd yn caru Duw. (Rhufoeniaid 8: 28) Rhagluniaeth rasol Duw sy'n golygu mai o'r Aifft, o ganol y profiadau mwyaf argyfyngus, yr ydym ninnau'n cael ein galw. Bwriad Duw ym mhob peth yw ein bod yn ei brofi'n Fugail nerthol pob cam o'r daith. (Datguddiad 7:17) Pwyswn ar fraich ein Tad nefol i'r flwyddyn hon o'r newydd eto a chadw'n llygad ar Iesu, yr un sydd yn rhoi gorffwysfa llawn i ni.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 4^{ydd} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Aneurin, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Gwener – 9^{fed} • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 11^{eg} • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 4^{ydd} Bydd Mr Joseff Edwards yn arwain oedfa deuluol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 4^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth – 6^{ed} Cynhelir Cyfarfod Cymdeithas y Beibl yn y Festri am 7.30 yng nghwmni Nerys Pritchard, Rheolwraig Canolfan Mari Jones, Llanycil. Croeso i bawb.
- Iau – 8^{fed} Cinio'r Jangl am 12.00.
Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yn y Festri am 7.30 gyda Steffan Morris yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 11^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 4^{ydd} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a chynhelir yr Ysgol Sul yno am 2.00. Ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Iau – 8^{fed} Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Saron am 7.00 gyda'r Parch. Eifion Jones yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 11^{eg} Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yn Saron. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 4^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 4^{ydd} Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 4^{ydd} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a Chyfarfod Gweddi y Chwiorydd am 2.00 – croeso i bawb.
- Mercher – 7^{fed} Cynhelir Gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Llanefydd am 7.00. Pregethir gan y Parch. Dafydd Rees Roberts.
- Iau – 8^{fed} Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Berain am 7.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 2:25-33 (BCND tud.63 / BCN: tud.58)